

Maethiad anifeiliaid anwes

Nodiadau'r myfyriwr

Cynnwys

Bydd yr uned hon yn eich helpu i ddeall pa fath o fwydydd sy'n addas ar gyfer anifeiliaid anwes.

Er mwyn cael y gorau allan o'r sesiwn hon, gallech ddarllen yr adran 'cwestiynau i'w hateb', sy'n cyd-fynd â'r clip ffilm y byddwch yn ei gwyllo. Yna defnyddiwch y clip ffilm i'ch helpu i ddod o hyd i'r atebion, a chwblhewch 'Tasgau i'w gwneud' cyn eich bod yn symud ymlaen i'r clip nesaf

Nod y sesiwn yw . . .

Dangos anghenion bwyd anifeiliaid anwes.

Amcanion – Erbyn diwedd y sesiwn hon byddwch yn medru:

- Nodi bwyd addas ar gyfer anifeiliaid anwes.
- Trafod anghenion ysglyfaethwr ac anifeiliaid ysglyfaeth
- Sefydlu pa grwpiau o fwydydd mae pob bwyd yn ei ddarparu.
- Sefydlu pa fwydydd sy'n dderbyniol.
- Adnabod pwysigrwydd maint.
- Trafod dulliau o gyflwyno.



Bwyd

Clip Ffilm

Cwestiynau i'w hateb (wrth wyllo)

Tasgau i'w gwneud (ar ôl gwyllo)



NGfL CYMRU **GCaD**

<p>Gwylwch y clip ffilm: Bwydydd derbyniol</p>	<p>Pa fwydydd a ellir eu rhoi i anifeiliaid anwes?</p> <p>Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng ysglyfaethwr ac ysglyfaeth?</p> <p>Ystyriwch: Fel arfer llysysyddion yw anifeiliaid ysglyfaeth, ac mae 'bwyd sych' ar gael sy'n cynnwys grawn a hadau. Mae hwn yn darparu cydbwysedd rhwng carbohydrad, protein a lipid. Gellir eu bwydo hefyd â llysiau ffres, sy'n ffynhonnell dda o garbohydradau a fitaminau, ond rhaid cymryd gofal gan fod rhai llystyfiant yn wenwynig.</p> <p>Ystyriwch: Mae ysglyfaethwyr yn y gwyllt e.e. ffuredau, yn hela, lladd a bwyta anifeiliaid fel cwingod, llygod bach ac ieir. Maent hefyd yn dwyn wyau o nythod adar. Rhaid felly roi cig ac wyau i'r math yma o anifeiliaid anwes, gan fod hwn yn ffynhonnell ragorol o brotein, lipid a fitaminau.</p> <p>Rhaid darparu digon o Ddŵr ffres i ysglyfaethwr ac ysglyfaeth er mwyn cynnal hydradiad.</p>	<p>Beth yw cigysydd?</p> <p>Beth yw llysysydd?</p> <p>Beth yw hollysydd?</p> <p>I ba bwrpas mae carbohydrad yn cael ei ddefnyddio yng nghorff yr anifail?</p> <p>I ba bwrpas mae protein yn cael ei ddefnyddio yng nghorff yr anifail?</p> <p>I ba bwrpas mae lipid neu fraster yn cael ei ddefnyddio yng nghorff yr anifail?</p> <p>Pa ganran o ddŵr sydd yng nghorff yr anifail?</p> <p>Sut mae'r dŵr hwn yn cael ei golli gan anifeiliaid?</p>
--	--	---

Cynhwysir tasg Ryngweithiol yn y pecyn hwn –

Medrwnch nodi'r planhigion y gellir eu bwydo'n ddiogel i'r anifeiliaid anwes

Cwblhewch y dasg asesu risg rhyngweithiol trwy'r linc a ddarperir.

<p>Gwylwch y clip ffilm: Meintiau</p>	<p>Pa faint sydd ei angen? Pa ffactorau sy'n rheoli faint i'w roi? Sut mae'r bwyd yn cael ei feintoli a'i fesur? Pam fod rhoi gormod o fwyd yn berygl mawr? Ystyriwch: Yn y gwyllt byddai'n rhaid i'r anifeiliaid yma hela neu chwilota am eu bwyd, a byddai hyn yn defnyddio egni.</p>	<p>Ystyriwch y cwestiynau canlynol: Rhestrwch feintiau addas ar gyfer amrediad o rywogaethau. Penderfynwch sut mae oed, rhyw, statws atgynhyrchu a chynnyrch yn medru effeithio ar faint o fwyd a roir. Beth yw peryglon gorfwydo?</p>
---	---	--



<p>Gwyliwch y clip ffilm: Cyflwyniad</p>	<p>Pam mae'n bwysig ceisio cyflwyno bwyd mewn modd sy'n annog yr anifail i weithredu'r ymddygiad hela neu chwilota hyn?</p> <p>Sut mae hwn yn effeithio ar iechyd corfforol a seicolegol?</p> <p>Cofiwch:</p> <p>RHAID cofio fodd bynnag yn y DU ei bod hi'n anghyfreithlon i fwydo fertebraid byw (neu anifeiliaid gydag asgwrn cefn) i rywogaethau rheibus. Nid dyma'r sefyllfa ym mhob gwlad. Yn y DU gellir bwydo infertebratau byw megis pryfed i ysglyfaethwyr.</p>	<p>Nodwch ddulliau o gyflwyno bwyd i greu cyfoethogiad.</p> <p>Dyluniwch rai mathau o gyfoethogiad fyddai'n annog rhywogaethau i hela neu chwilota.</p> <p>Penderfynwch fanteision, anfanteision ac addasrwydd gwahanol lestri bwydo a dyfrhau.</p> <p>Dyluniwch a chynhyrchwch weithgaredd cyfoethogi trwy ddefnyddio bwyd - gwnewch y gweithgaredd ac arsylwch yr effaith ar ymddygiad yr anifail.</p> <p>Penderfynwch a yw hi'n dderbyniol bwydo anifeiliaid byw i ysglyfaethwyr.</p> <p>Ddylai hyn fod yn berthnasol i fertebrau ac infertebratau ai peidio?</p>
--	---	--